

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL MASNACH

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw bwrpas sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy’n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Masnach (y “Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth 2020. Cewch weld y Bil yn:

<https://services.parliament.uk/Bills/2019-21/trade.html>

Amcanion Polisi

3. Yr amcanion polisi a nodir gan Lywodraeth y DU yw darparu dilyniant i fusnesau, gweithwyr a defnyddwyr ledled y DU a sefydlu'r DU fel cenedl fasnachu fyd-eang annibynnol. Er mwyn cefnogi hyn mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol; sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach a rhoi swyddogaethau iddo; ac yn gwneud darpariaeth ynghylch casglu a datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â masnach.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddwr y Bil yw'r Adran Masnach Ryngwladol.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
 - Rhoi pwerau i Weinidog y Goron a'r awdurdodau datganoledig wneud rheoliadau er mwyn gweithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar

Gaffael gan Lywodraethau, sef cytundeb y mae'r DU yn bwriadu ymuno ag ef fel aelod annibynnol ar ôl y cyfnod pontio;

- Rhoi pwerau i Weinidog y Goron a'r awdurdodau datganoledig wneud rheoliadau er mwyn gweithredu mathau penodol o gytundebau masnach presennol rhwng yr UE a thrydydd gwledydd, megis y Cytundebau Masnach Rydd presennol a lofnodwyd gan yr UE ar ran y DU (sef y 'cytundebau parhad masnach');
- Sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach i weithredu fframwaith rhwymedïau masnach newydd y DU; a
- Sefydlu porth rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill.

Dyma'r darpariaethau yn y Bil sy'n arbennig o berthnasol i Gymru:

- Rhan 1, Cymal 1 – (gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau).
- Rhan 1, Cymal 2 – (gweithredu cytundebau masnach ryngwladol).
- Rhannau 2 a 3 – (sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach; a chasglu a rhannu gwybodaeth am fasnach). Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rhannau hyn yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nac yn addasu'r cymhwysedd hwnnw. Fodd bynnag, gallai sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach gael effaith ar feysydd datganoledig fel amaethyddiaeth a physgodfeydd.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol rhoi cydsyniad ar gyfer Rhan 1 o'r Bil a'i Hatodlenni cysylltiedig ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Rhan 1, Cymal 1 – mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (y Cytundeb). Cytundeb amlochrog (nad yw'n orfodol) o fewn fframwaith Sefydliad Masnach y Byd yw hwn, ac mae'n agor marchnadoedd caffael llywodraethau. Pan ddaw'r cyfnod pontio â'r UE i ben, ni fydd y DU yn barti i'r Cytundeb mwyach,

ac felly ni all gael ei rhwymo gan y Cytundeb, na chael budd ohono. Ar ôl y cyfnod pontio, mae'r DU yn bwriadu ymuno â'r Cytundeb fel parti yn ei hawl ei hun, ac mae hynny'n golygu ei bod yn bosibl y bydd angen gwneud rheoliadau o ran Cymru er mwyn gweithredu'r Cytundeb o ran Cymru.

Mae'r pwerau a roddir gan gymal 1 yn rhai cydredol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Mae hynny'n golygu y gall Gweinidog y Goron a Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hynny mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried, felly, fod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae Rheoliadau a wneir gan Weinidog y Goron neu Weinidogion Cymru wrth weithredu naill ai ar y cyd neu'n unigol o dan adran 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (gweler Rhan 2 o Atodlen 2).

- **Rhan 1, Cymal 2** – mae hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydydd gwledydd sy'n cyfateb i fathau penodol o gytundebau presennol rhwng yr UE a thrydydd gwledydd. Fel ag yn achos cymal 1, gall Gweinidog y Goron hefyd arfer y pwerau o ran Cymru.

Bydd y cytundebau masnach rhyngwladol y gallai'r ddarpariaeth hon fod yn gymwys iddynt yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys amaethyddiaeth a physgodfeydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, felly, fod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae Rheoliadau a wneir gan Weinidog y Goron neu Weinidogion Cymru wrth weithredu naill ai ar y cyd neu'n unigol o dan adran 2 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gweler Rhan 3 o Atodlen 2).

- **Rhan 1, Cymal 3 ac Atodlenni 1, 2 a 3** – mae cymal 3 yn darparu ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaethau y gellid eu gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan gymalau 1 a 2. Mae cymal 3 hefyd yn rhoi effaith i Atodlenni 1-3. Mae Atodlen 1 yn gosod cyfyngiadau ar y modd y caiff Gweinidogion Cymru arfer pwerau. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sydd i fod yn gymwys i reoliadau a wneir o dan gymalau 1 a 2. Mae Atodlen 3 yn cynnwys eithriadau i gyfyngiadau yn y setliad datganoli.

Gan fod y darpariaethau hyn yn diffinio sut y gall Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i wneud rheoliadau a roddir gan gymalau 1 a 2, mae'r darpariaethau hyn hefyd yn ymwneud â phynciau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, o ganlyniad, mae cydsyniad yn ofynnol.

- **Rhan 1, Cymal 4** – mae'r ddarpariaeth hon yn amlinellu sut y dylid dehongli termau penodol o fewn Rhan 1 o'r Bil. Gan fod angen ystyried y ddarpariaeth hon ar y cyd â chymalau 1, 2 a 3, rydym yn ystyried bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y ddarpariaeth hon.
7. Mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'r pwerau a roddir yn ymwneud â gweithredu agweddau ar gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â materion nas cedwir yn ôl.
 8. Mae prif elfennau'r Bil Masnach yr un fath â Bil Masnach 2017-19. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â Bil Masnach 2017-19.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Masnach

9. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod deddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn darparu eglurder a sicrwydd i fusnesau a defnyddwyr mewn perthynas â masnach gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r UE.
10. Rydym yn derbyn y gallai achosion godi pan fyddai'n synhwyrol i Senedd y DU ddeddfu ar feysydd datganoledig, ond dylai hynny ddigwydd gyda chydsyniad y Llywodraethau Datganoledig yn unig. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ailddatgan ymrwymadau a wnaed yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19, gan gynnwys:
 - Ni fydd Llywodraeth y DU fel arfer yn defnyddio pwerau cydredol i ddeddfu ym meysydd datganoledig heb gydsyniad y Llywodraethau Datganoledig, ac ni fydd byth yn gwneud hynny heb ymgynghori â hwy.
 - Ni fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau i gyflwyno polisïau newydd mewn meysydd datganoledig, ac effeithlonrwydd gweinyddol fydd y prif ffactor ysgogi.
 - Ymgysylltu â Llywodraethau Datganoledig cyn ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau cymal 2 ynddo o dan y Bil.

11. Nid yw'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn gymwys ac felly nis ceisir cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu cyfer. Fodd bynnag, at ddiben cyfanrwydd, mae'r ymrwymïadau rydym yn disgwyl iddynt gael eu hailddatgan mewn perthynas â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach wedi'u nodi isod:

- Bydd yr Adran Masnach Ryngwladol yn rhoi gwybod i'r Llywodraethau Datganoledig pan fydd yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn agor ymchwiliad, gan eu hysbysu bod angen iddynt benderfynu p'un ai i gofrestru eu buddiant yn yr achos ai peidio.
- Bydd Llywodraeth Ddatganoledig yn gallu cofrestru ei buddiant gyda'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach ac yna dod yn gyfrannwr.
- Fel cyfrannwr, caiff y Llywodraeth Ddatganoledig ei gwahodd gan yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach i gyflwyno gwybodaeth berthnasol, a bydd rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i ystyried yr wybodaeth honno yn yr ymchwiliad fel y bo'n briodol.
- Bydd yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach hefyd yn hysbysu Cyfranwyr am unrhyw gamau a gymerwyd ganddo.
- Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r Llywodraethau Datganoledig am argymhellion yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach ar yr un pryd ag ymgynghori ag adrannau llywodraeth y DU er mwyn iddynt fynegi eu barn cyn gwneud penderfyniad terfynol p'un ai i dderbyn ai peidio.
- Caiff adroddiad blynyddol yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach ei rannu â'r Llywodraethau Datganoledig ar ôl iddo ddod i law'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd y Llywodraethau Datganoledig yn gallu ei osod gerbron eu priod ddeddfwrfeydd ar yr un pryd ag y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei osod gerbron Senedd y DU.
- Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio awgrymiadau gan y Llywodraethau Datganoledig o ran y ffordd orau o recriwtio aelodau anweithredol i'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach sy'n meddu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol.

12. Ar y sail hwn, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cydsyniad deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

13. Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol ar gyfer Llywodraeth Cymru na Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn codi o'r pwerau o dan y Bil, bydd gan ein cydberthnasau masnachol yn y dyfodol oblygiadau ariannol sylweddol, o ran eu heffaith economaidd gyffredinol.

Casgliad

14. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. O ran sicrhau cydlyniaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai deddfu drwy gyfrwng Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r dull deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur o greu polisi masnach annibynnol ar gyfer y DU ar ôl y cyfnod pontio. Gallai trefniadau masnachu yn y dyfodol gael effaith sylweddol ar feysydd datganoledig, felly mae'n bwysig bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Bil Masnach.

Eluned Morgan AC

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Ebrill 2020